**PWYLLGOR SAFONAU**

**9 Tachwedd 2016**

Yn Bresennol: Mr R Barrett-Evans (Cadeirydd)
Mr A Archer, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd R Owens, Mrs V Tomlinson a Mrs J Wainwright

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.10am – 11.50am)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Hydref 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Hydref 2016.

**4. Cais am Ganiatáu Goddefeb**
Dywedodd y Swyddog Monitro bod cais wedi dod i law oddi wrth y Cynghorydd Paul Harries o Drefdraeth am oddefeb gan y Pwyllgor Safonau fyddai'n ei alluogi i gymryd rhan yn y ddadl i'w chynnal cyn hir ar ddyfodol darparu gwybodaeth i ymwelwyr, yn arbennig yn Nhrefdraeth ac yn Ninbych-y-pysgod. Roedd ei gais yn ymwneud â Threfdraeth yn unig ac wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor. Hefyd cafodd copi o e-bost a gyflwynwyd wedyn gan y Cynghorydd Harries oedd yn cynnwys gwybodaeth ategol, ei ddosbarthu.

Bu'r Aelodau yn ystyried y cais ac yn parchu'r ffaith ei fod, ar ôl cymryd camau rhagofalus a datgelu buddiant gan ei fod yn berchen ar eiddo yn y dref, nad oedd yr Aelod bellach yn gallu cynrychioli buddiannau ei etholwyr. Hefyd ni allai gyfrannu at y ddadl mewn cyfarfodydd yr Awdurdod er ei fod yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

Awgrymodd y Swyddog Monitro, petai'r Aelodau yn caniatáu goddefeb, y gellid cynghori'r Aelod, er mwyn egluro'r sefyllfa, i nodi mewn datganiad cyn gwneud unrhyw sylwadau, ei fod wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu ond ei fod yn siarad oherwydd goddefeb a ganiatawyd iddo gan y Pwyllgor Safonau.

Bu trafodaeth wedyn ar derfynau a hyd unrhyw oddefeb, ac awgrymwyd y gallai'r Cynghorydd Harries gymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'r

strategaeth gyffredinol o ran gwybodaeth i ymwelwyr.  Fodd bynnag, petai safleoedd penodol yn Nhrefdraeth yn cael eu trafod, yna byddai gofyn iddo ail-ystyried ei sefyllfa.  Hefyd nodwyd bod y cais wedi'i wneud am oddefeb tan y 30ain o Dachwedd 2017, ond digon posibl na fyddai'r sefyllfa wedi'i datrys erbyn hynny ac y byddai cyfnod hirach felly yn fwy priodol.

**PENDERFYNWYD** caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd P Harries tan 31/03/2018 i gymryd rhan mewn dadleuon, cyfarfodydd a thrafodaethau yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar yr ymgynghori ynglŷn â dyfodol darparu gwybodaeth i ymwelwyr, ac wedi hynny mewn unrhyw gytundeb ar y strategaeth ynglŷn â Chanolfan Ymwelwyr Trefdraeth.